**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1555
Ein cyf/Our ref KSNWT-01662-25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

11 Tachwedd 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 06 Hydref at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch Deiseb P-06-1555: Adolygu'r holl ganllawiau ar Gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol ar gyfer Cymru gyfan. Mynediad am ddim at addysg, a gyflwynwyd gan Tina Collins. Rwy'n ymateb oherwydd cyfrifoldebau fy mhortffolio

Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i roi fy safbwyntiau i'r Pwyllgor cyn eich ystyriaeth ffurfiol gyntaf o'r ddeiseb hon. Rwy'n cydnabod y lefel sylweddol o bryder ynghylch teithio gan ddysgwyr, fel y dangosir gan yr iaith a ddefnyddir yn y ddeiseb hon.

Nodaf fod y ddeiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r holl ganllawiau ar gludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer Cymru gyfan. Yn ystod tymor y Senedd hon, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad mewnol o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) a arweiniodd at gyhoeddi Adroddiad Argymhellion ym mis Mawrth 2024. Mae'r adroddiad hwn yn nodi llwybr cymedrol ar gyfer tymor y Senedd hon mewn fframwaith realistig, fforddiadwy a phragmatig.

Un o'r prif argymhellion oedd adolygu a diwygio'r canllawiau sy'n cefnogi teithio gan ddysgwyr. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn mynd rhagddo ac agorwyd ymgynghoriad ar y ddogfen ganllawiau gweithredol ddiwygiedig ym mis Mehefin eleni. Yn ddiweddar, cyhoeddais estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer yr ymarfer ymgynghori hwn (hyd at 28 Tachwedd) fel y gall cynifer o bobl a sefydliadau llywio cyfeiriad y polisi a dylanwadu arno yn y dyfodol.

Yn ogystal â hyn, ym mis Mawrth eleni gofynnais am amser ar gyfer dadl Llywodraeth i drafod y mater cymhleth hwn ac ym mis Mai cynhaliais uwchgynhadledd a ddaeth â chyrff cynrychioliadol ynghyd i drafod yr heriau a'r atebion ymarferol ar gyfer gwella teithio gan ddysgwyr yng Nghymru. Mae adroddiad yr uwchgynhadledd yn amlinellu'r ffrydiau gwaith a sefydlwyd i fwrw ymlaen â rhywfaint o'r gwaith hwn ac rwyf wedi ymrwymo i gynnal digwyddiad dilynol yn gynnar yn 2026. Rwyf wedi atodi copi o'r adroddiad i chi er gwybodaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i ddadl fer ar deithio gan ddysgwyr ar 8 Hydref. Cafodd gwaith y grŵp ymgyrchu y mae Tina Collins yn ymwneud ag ef ei fynegi'n glir gan Heledd Fychan.

Fel y nodwyd yn ein hymateb i'r ddadl, nid ydym yn anghytuno â'r teimlad y tu ôl i eiriad y ddeiseb. Rydym i gyd eisiau sicrhau nad yw ein plant a'n pobl ifanc yn wynebu rhwystrau i gael mynediad at addysg, ac rydym yn cymryd dull traws-lywodraethol. Mae'r Llywodraeth hon wedi cynyddu'r trothwy incwm aelwydydd ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, gan ddarparu cymorth ariannol i 3,500 o fyfyrwyr ychwanegol. Rydym wedi buddsoddi £6.5m y flwyddyn ariannol hon mewn Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd i helpu i gefnogi presenoldeb. Rwyf wedi sicrhau £22 miliwn i gyflwyno cynllun teithio ar fws am £1 i'n holl bobl ifanc – mae dros 29,000 o bobl ifanc 16-21 oed eisoes wedi cofrestru, sy'n wych. Rwyf hefyd wedi neilltuo £110 miliwn y flwyddyn ariannol hon i lwybrau teithio llesol, y rhaglen teithiau iach a'r grant llwybrau diogel mewn cymunedau. Bydd hyn i gyd yn helpu i wneud y strydoedd ger ein hysgolion yn fwy diogel. Mae hyn i gyd yn ychwanegol at y £6.1 biliwn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol mewn cyllid refeniw craidd ac ardrethi annomestig y flwyddyn ariannol hon i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol, gan gynnwys cludiant i ddysgwyr.

Mae awdur y ddeiseb hon a chynrychiolwyr y grŵp ymgyrchu wedi'u sefydlu mewn ymateb i'r newidiadau a wnaed yn eu hawdurdod lleol. Mae'r newidiadau y maent yn ymgyrchu yn eu herbyn yn benderfyniad awdurdod lleol, sy'n lleihau eu darpariaeth cludiant ysgol yn ôl disgresiwn i gyd-fynd â'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru). Rwy'n cael trafodaethau rheolaidd ag arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yn hyderus y bydd yr awdurdod lleol yn parhau i fonitro'r sefyllfa wrth gymryd camau ymarferol a rhagofalus i reoli goblygiadau eu newidiadau polisi, gan gynnwys gweithredu cronfa cymorth caledi gwerth £100,000 ar gyfer ysgolion uwchradd ar draws yr awdurdod lleol.

Rwyf am roi sicrwydd i'r Pwyllgor fy mod yn gwrando ac yn gweld bod hwn yn faes blaenoriaeth ar gyfer cynyddu gwaith partneriaeth rhwng ein partneriaid cyflenwi yn yr awdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am ddarparu cludiant i ddysgwyr cymwys.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi ac aelodau'r Pwyllgor fanteisio ar y cyfle hwn i godi proffil yr ymgynghoriad sydd ar agor tan 28 Tachwedd. Rwyf yn awyddus i ni ddefnyddio'r ymarfer hwn i helpu i lywio datblygiad y canllawiau a'r syniadau polisi yn y maes hwn.

Yn gywir,

**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales